# Atebion a roddwyd i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2 Rhagfyr 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa ganran o gyfanswm y boblogaeth yn Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd a ddaw o bob un o'r awdurdodau lleol. (WAQ55195) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio (Leighton Andrews)**: Yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2008, canran y boblogaeth gyfan yn Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd o bob un o'r awdurdodau lleol a gwmpesir gan ffiniau'r rhaglen yw:

Rhondda Cynon Taf: 30%
Merthyr Tudful: 22%
Caerffili: 12%
Blaenau Gwent: 28%
Tor-faen: 8%

**Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Beth oedd swm a chanran cyfanswm gwariant Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd a ddyrannwyd i bob un o'r awdurdodau lleol ar gyfer pob blwyddyn o'r rhaglen Ardal Adfywio Strategol hyd yn hyn. (WAQ55196) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio***

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

**Leighton Andrews**: Ers 2005, mae Ardal Adfywio Strategol Blaenau'r Cymoedd wedi buddsoddi dros £68m mewn gweithgareddau adfywio ledled ardal y rhaglen. Yn ystod tair blynedd gyntaf y rhaglen, canolbwyntiwyd ar fuddsoddi mewn prosiectau effaith fawr ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae model ariannu poblogaeth/amddifadedd wedi dechrau cyfeirio adnoddau i ddarparu cynlluniau adfywio Ardal Gyfannol ym mhob ardal. Nodir dadansoddiad o'r arian (blwyddyn, swm, canran) yn ôl awdurdod lleol isod:

| **GWARIANT ARDAL ALL BLAENAU'R CYMOEDD** | **06/07** | **07/08** | **08/09** | **09/10 (3ydd chwarter)** | **CYFANSWM (gan gynnwys £1.8m ar gyfer 05/06 a ddyrannwyd mewn pum ardal)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | £3.1m (20%) | £3.4m (20%) | £3.98m (20.6%) | £3.24m (22.4%) | 14.08 (20.8) |
| Merthyr Tudful | £3.1m (20%) | £3.4m (20%) | £3.6m (18.5%) | £3.0m (20.7%) | 13.46 (19.7) |
| Caerffili | £3.1m (20%) | £3.4m (20%) | £3.29m (16.9%) | £2.66m (18.4) | 12.81 (18.5) |
| Blaenau Gwent | £3.1m (20%) | £3.4m (20%) | £4.7m (24.3%) | £3.14m (21.7) | 14.70 (21.9) |
| Tor-faen | £3.1m (20%) | £3.4m (20%) | £3.8m (19.7%) | £2.44m (16.8%) | 13.1 (19.1) |
| | **£15.5m** | **£17m** | **£19.37m** | **£14.48** | **£68.15 (nodyn - yn cynnwys £1.8m ar** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **gyfer 05/06)** |

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd at bumed gwasanaeth ar Reilffordd Calon Cymru. (WAQ55197)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae fy swyddogion a rhanddeiliaid yn y diwydiant gan gynnwys Trenau Arriva Cymru, Network Rail a Fforwm Llinell Calon Cymru yn ailystyried astudiaeth arfarnu Canllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WELTAG) 2008 ar gyfer gwasanaethau ychwanegol ar Linell Calon Cymru.

Mae'r astudiaeth ddichonoldeb bron â'i chwblhau a disgwyliaf gael y canlyniadau ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyflymder y caiff trenau deithio ar reilffordd Calon Cymru a pha drafodaethau y mae wedi'u cael â rhanddeiliad priodol gyda golwg ar waith cyfalaf a allai helpu trenau i deithio'n gynt. (WAQ55198)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Y cyflymder uchaf y caniateir i drenau yng Nghymru deithio ar Linell Calon Cymru yw 60 mya ond mae'r nifer fawr o groesfannau a chroesfannau fferm ar y llinell yn lleihau hyn yn sylweddol mewn mannau.
Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau am waith cyfalaf i Linell Calon Cymru. Nid yw'r astudiaeth arfarnu WELTAG gyfredol a gomisiynwyd gennyf i nodi atebion posibl i'r amserlen er mwyn darparu gwasanaeth gwell ar y llinell hon yn dibynnu ar welliannau mewn seilwaith.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd at sefydlu Fforwm Preswylwyr Cartrefi mewn Parciau. (WAQ55199) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog dros Dai***

***Rhoddwyd ateb ar 8 Rhagfyr 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Rydym wrthi'n cynnal ymarfer mawr i gasglu data mewn perthynas â chartrefi mewn parciau er mwyn creu darlun mwy cyflawn o nifer y safleoedd, y perchnogion a'r preswylwyr yng Nghymru. Unwaith y bydd y wybodaeth hon gennym, byddwn mewn sefyllfa well i ddatblygu'r broses o sefydlu fforwm. At hynny, yn ddiweddar buom yn blaenoriaethu gwaith ar sefydlu'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl fel y corff dyfarnu ar gyfer datrys anghydfodau a threfniadau trwyddedu safle diwygiedig. Bydd y ddau fesur yn diogelu buddiannau preswylwyr cartrefi mewn parciau ymhellach.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wario ar hyn o bryd ar iechyd y geg ymysg oedolion yn Wrecsam. (WAQ55192)

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wario ar hyn o bryd ar iechyd y geg ymysg oedolion yng Nghymru. (WAQ55193)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn casglu'r wybodaeth hon.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod yr holl gleifion a symudwyd oddi ar y rhestri aros orthopedig yn 2007/08 yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac a roddwyd yn ôl wedyn yn 2008/09 wedi cael eu trin. (WAQ55194)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod pob claf gwasanaeth iechyd meddwl fforensig yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau triniaethau cyffuriau ac alcohol angenrheidiol. (WAQ55186)

***Rhoddwyd ateb ar 10 Rhagfyr 2009***

Mae strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yn pwysleisio'r angen i wasanaethau gydweithio i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ynghyd â phroblemau iechyd meddwl.

Cyhoeddwyd modiwl camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl y fframwaith trin camddefnyddio sylweddau gyntaf ym mis Tachwedd 2004 ac mae'n rhoi canllawiau clir ar ddatblygu llwybrau gofal integredig a sefydlu gweithdrefnau rhwng gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ar gyfer y grŵp cleient hwn. Ail-lansiwyd y modiwl hwn ym mis Rhagfyr 2007 a rhoddwyd y pwyslais ar sicrhau bod rheolwyr gwasanaeth iechyd meddwl yn arwain y gwaith o sefydlu'r gweithdrefnau hyn.

Mae sefydlu'r gweithdrefnau hyn yn ofyniad o dan Gam Gweithredu 37 o Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol diwygiedig iechyd meddwl oedolion.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am system monitro triniaethau cyffuriau cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru. (WAQ55187)

***Rhoddwyd ateb ar 8 Rhagfyr 2009***

Mae Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn darparu data ar bobl sy'n cael triniaeth ar gyfer problemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae'n ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno gwybodaeth i'r gronfa ddata.
Mae'r gronfa ddata yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i fonitro cyflawniadau yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, a chaiff pob adroddiad chwarterol a blynyddol ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu ac yn diwallu anghenion plant sy'n byw gyda rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau. (WAQ55188)

***Rhoddwyd ateb ar 8 Rhagfyr 2009***

Mae 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', strategaeth camddefnyddio sylweddau deng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau'r niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i'r ffaith bod aelod o'r teulu yn camddefnyddio sylweddau. Mae'r camau hyn yn hanfodol i gefnogi strategaethau tlodi plant a cham-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae camau o'r fath yn cynnwys rhoi Dull Integredig ar gyfer Asesiad Trylwyr o Gamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru (WIISMAT) a Phrotocolau Cydweithio rhwng gwasanaethau Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Sylweddau ar waith, y mae'r ddau ohonynt yn darparu canllawiau arfer gorau ar asesu risg i blant a phobl ifanc a'r prosesau atgyfeirio pellach priodol. Mae canllawiau hefyd wedi'u cyhoeddi i bartneriaid statudol Byrddau Lleol Diogelu Plant, sy'n cyfeirio'n benodol at ymateb i anghenion plant sydd â rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau.

Ymhlith y mentrau eraill sy'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu plant sy'n agored i niwed a chefnogi ymyriadau teuluol mae cyflwyno'r Rhaglen Atgyfnerthu Teuluoedd a sefydlu'r Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd amlddisgyblaethol. Bydd y timau hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol medrus a phrofiadol a gaiff eu cefnogi'n dda a fydd yn cyflwyno model rhagnodedig o ymyriadau teuluol i deuluoedd bregus lle mae'r ffaith bod y rhieni yn camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar les y plant ac felly maent yn wynebu risg.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Faint o oedolion sy'n cael triniaethau cyffuriau neu alcohol sy'n rhieni. (WAQ55189)

***Rhoddwyd ateb ar 8 Rhagfyr 2009***

Yn ôl y wybodaeth reoli ddiweddaraf sydd ar gael gan Gronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau, ar 30ain Mehefin 2009 roedd 4,360 o gleientiaid camddefnyddio sylweddau (sy'n defnyddio gwasanaethau trin ar hyn o bryd) a oedd ag o leiaf un plentyn naill ai'n byw gyda hwy neu'n byw mewn man arall.

**David Melding (Canol De Cymru):** Pa gyfraniad a fu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at benodi Comisiynydd Cymru ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (WAQ55190)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Cynrychiolwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lefel swyddogol yn ystod y broses benodi, a cheisiwyd cymeradwyaeth y Prif Weinidog ar gyfer y penodiad.

**David Melding (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r broses penodi ar gyfer Comisiynydd Cymru ar y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ac a wnaiff ddatganiad. (WAQ55191)

***Rhoddwyd ateb ar 4 Rhagfyr 2009***

Mae hwn yn benodiad statudol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Gwneir y penodiadau yn unol â Chod Ymarfer Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus (OCPA). Croesawaf benodiad Ann Beynon OBE fel Comisiynydd Cymru. Hoffwn hefyd ddiolch i Dr Neil Wooding, y cyn-Gomisiynydd, am ei gyfraniad cadarnhaol iawn at Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru.